Tydfil Training

# Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol

Mae'r polisi hwn sy'n berthnasol i Tydfil Training wedi'i fabwysiadu gan y rhiant-gwmni, Coleg Merthyr Tudful. Tydfil Training yw'r rheolydd data mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol hon ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'i ofynion statudol. Mae gan Tydfil Training, fel is-gwmni i Goleg Merthyr Tudful, **Swyddog Diogelu Data** sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol De Cymru, a gellir cysylltu ag ef drwy e-bostio dataprotection@southwales.ac.uk.

Mae hwn yn hysbysiad preifatrwydd cyffredinol ar gyfer casglu data personol nad yw'n cael ei gasglu fel rhan arferol o weithrediadau busnes o ddydd i ddydd, ac mae'n ategu unrhyw hysbysiadau preifatrwydd eraill gan Tydfil Training neu'r Coleg a all fod yn berthnasol.

## Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i ddata personol a ddarperir i ni, naill ai gan yr unigolion eu hunain neu gan drydydd partïon, ac fe'i cynlluniwyd i helpu'r rhai y mae eu data gennym i ddeall sut y caiff ei ddefnyddio.   Mae'r hysbysiad wedi'i fwriadu ar gyfer yr unigolion canlynol, a all: · Gysylltu â Tydfil Training drwy unrhyw ddull ac at unrhyw ddiben · Darparu gwasanaethau i Tydfil Training neu weithio gyda Tydfil Training · Gofyn am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth cydymffurfio â gwybodaeth · Ymweld â gwefan Tydfil Training neu ei defnyddio · Darparu gwybodaeth i Tydfil Training heb i ni ofyn amdani Gall Tydfil Training gasglu'r wybodaeth ganlynol:

- Manylion personol (fel enw, manylion cyswllt a chyfeiriad e-bost) a ddarperir pan fydd unigolyn yn cysylltu â ni i ofyn am wybodaeth neu'n cyflwyno gwybodaeth drwy'r wefan.
- Ymatebion i arolygon a gwblheir ar dudalennau gwe neu drwy ddolenni a anfonir at yr unigolyn.
- Unrhyw wybodaeth arall a bostir, a anfonir drwy e-bost neu a ddarperir i Tydfil Training mewn unrhyw ffordd arall.
- · Gwybodaeth sy'n ymwneud â'r defnydd o dudalennau gwe ac, lle bo ar gael, y math o borwr, y cyfeiriad IP a'r system weithredu. · Gwybodaeth bersonol nas gofynnwyd amdani (gwybodaeth nad yw Tydfil Training wedi'i cheisio na'i gofyn amdani), megis CV, pryder neu gofnodion meddygol a anfonir at staff Tydfil Training. Lle bo hyn yn digwydd, bydd y data **personol hwn yn cael ei drin gyda'r un gofal ag unrhyw ddata personol arall a broseswn, ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data fel y nodir yn yr hysbysiad hwn.**
- **Bydd Tydfil Training yn casglu gwybodaeth bersonol am ddefnydd o'r wefan drwy gwcis yn unol â'r Polisi Cwcis.**

## Sut y defnyddir data?

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny y bydd data personol yn cael ei brosesu, a bydd yn cael ei ddefnyddio at y dibenion canlynol yn unig:
· At ddibenion gweinyddol ac i gynorthwyo gydag ymholiadau a cheisiadau

· I reoli'r berthynas â chyflenwyr a phartneriaid
· I gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol
· I alluogi Tydfil Training i ddarparu cynnyrch, cyfleuster neu wasanaeth
· I brosesu adborth a gwella gwasanaethau · I reoli a gwella'r system we ac i ddatrys problemau
· Pan gesglir gwybodaeth bersonol ar wefan Tydfil Training, er enghraifft drwy ffurflen we neu system dalu ar-lein, bydd defnyddwyr yn cael gwybod pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu, pam y caiff ei chasglu ac â phwy (os oes unrhyw un) y caiff ei rhannu
· Pan fo gwybodaeth wedi'i gofyn gan Tydfil Training o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth neu ddiogelu data, neu'n fwy cyffredinol, gall y Brifysgol rannu data personol yn fewnol er mwyn delio â'r cais Defnyddir gwybodaeth cyflogwyr mewn perthynas â phrentisiaethau at ddibenion monitro.

## Y Sail Gyfreithlon dros Brosesu

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol bod sail gyfreithlon ar waith wrth brosesu data personol.

Caniatâd: Mae caniatâd wedi'i roi fel sail ar gyfer prosesu data personol.

Perfformio contract: Gall prosesu data personol fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r contract y mae Tydfil Training wedi ymrwymo iddo gyda sefydliad er mwyn darparu gwasanaethau Tydfil Training, neu oherwydd bod cais wedi'i wneud i ymrwymo i'r contract.

Tasg gyhoeddus: Gall prosesu data personol fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn Tydfil Training.

Rhwymedigaeth gyfreithiol: Mae prosesu data personol yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Gall hyn gynnwys darparu data penodol i asiantaethau allanol fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Buddiannau cyfreithlon: Gall prosesu data personol fod yn angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a geisir gan Tydfil Training neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau'r unigolyn neu ei hawliau a'i ryddid sylfaenol, sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn drech na'r buddiannau hynny.

Buddiannau cyfreithiol: Mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae Tydfil Training yn ddarostyngedig iddi.

Gall rhai o'r seiliau prosesu uchod orgyffwrdd, a gall fod sawl sail sy'n cyfiawnhau'r defnydd o wybodaeth bersonol.

## Pwy sy'n derbyn y data hwn?

At y dibenion a nodir uchod, efallai y bydd angen i Tydfil Training rannu data personol gyda'r canlynol:

· Darparwyr gwasanaethau trydydd parti allanol: gall fod adegau pan fydd sefydliadau allanol yn defnyddio gwybodaeth bersonol fel rhan o ddarparu gwasanaeth i Tydfil Training neu fel rhan o wirio ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, megis archwilwyr;

· Asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu asiantaethau llywodraethol a rheoleiddiol eraill: gall fod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i Tydfil Training ddatgelu gwybodaeth benodol i'r heddlu neu awdurdod perthnasol arall mewn amgylchiadau, er enghraifft lle ystyrir bod unigolyn mewn perygl difrifol o niwed.

· O bryd i'w gilydd, derbynnir ceisiadau gan drydydd partïon sydd ag awdurdod i gael datgeliad o ddata personol. Dim ond pan ganiateir hynny i Tydfil Training yn unol â'r gyfraith neu'r rheoliadau perthnasol y bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu gweithredu.

· Pan fydd Tydfil Training yn gweithio gyda chyflogwyr, rhaid darparu manylion cyswllt penodol sy'n ymwneud â'r prif gyswllt i'r llywodraeth at ddibenion gwerthuso a monitro.

## Trosglwyddiadau i drydydd gwledydd a'r mesurau diogelu sydd ar waith

Gall Tydfil Training ddefnyddio darparwyr trydydd parti i ddarparu gwasanaethau, megis meddalwedd a gynhelir yn allanol neu ddarparwyr gwasanaethau cwmwl, a gall y darparwyr hynny gynnwys trosglwyddo data personol y tu allan i'r DU.

Pan ddefnyddir darparwyr trydydd parti, bydd Tydfil Training yn sicrhau bod data personol yn cael ei drin gan y trydydd partïon hynny mewn modd diogel ac yn unol â chyfraith diogelu data'r DU, a bod mesurau diogelu priodol ar waith.

Cadw data Dim ond cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r dibenion y cafodd ei gasglu ar eu cyfer y bydd data personol yn cael ei gadw, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

## Diogelwch data

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i Tydfil Training gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Mae hyn yn golygu y bydd cyfrinachedd yn cael ei barchu, ac y bydd pob mesur priodol yn cael ei gymryd i atal mynediad a datgeliad heb awdurdod.

Dim ond aelodau o staff sydd angen mynediad at wybodaeth i gyflawni eu dyletswyddau fydd yn cael eu hawdurdodi i wneud hynny.

Bydd gwybodaeth a gedwir yn electronig yn destun cyfrineiriau a chyfyngiadau diogelwch eraill, tra bydd ffeiliau papur yn cael eu storio mewn mannau diogel gyda mynediad dan reolaeth.

Gall rhywfaint o brosesu gael ei wneud ar ran Tydfil Training gan sefydliad sydd wedi'i gontractio at y diben hwnnw.

Bydd sefydliadau sy'n prosesu data personol ar ran Tydfil Training wedi'u rhwymo gan rwymedigaeth i brosesu data personol yn unol â deddfwriaeth Diogelu.

## Hawliau unigolion

Mae gan unigolion yr hawl i gael mynediad at eu gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu ei phrosesu, i'w chywiro, i'w dileu, i gyfyngu ar ei phrosesu ac i'w throsglwyddo.

Dylid cyflwyno ceisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data PDC: Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol,
Prifysgol De Cymru
Pontypridd,
CF37 1DL

E bost: dataprotection@southwales.ac.uk

Mae gan unigolion nad ydynt yn fodlon ar y ffordd y mae eu data personol wedi cael ei brosesu yr hawl i gysylltu â Swyddog Diogelu Data PDC yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Mae gan unigolion sy'n parhau'n anfodlon yr hawl i gyflwyno eu pryderon yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaer,
SK9 5AF www.ico.org.uk